# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 14 Mai 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(198)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 7 a 10 eu grwpio.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.11

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 4 a 9 eu grwpio.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.49

Gofynnwyd y cwestiwn.

### 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 14.52

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

NNDM5502

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**
**Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnig yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd i wahardd y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd yng Nghymru.

2. Yn nodi bod 2.1 miliwn o oedolion yn y DU, yn ôl amcangyfrif, yn defnyddio sigaréts electronig ar hyn o bryd.

3. Yn nodi bod canllawiau iechyd y cyhoedd oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal 'Tobacco: harm-reduction approaches to smoking' yn cefnogi'r defnydd o gynnyrch trwyddedig sy'n cynnwys nicotin i helpu pobl i ysmygu llai neu i roi'r gorau i ysmygu.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r dystiolaeth sy'n sail i'r cynigion ar sigaréts electronig, er mwyn darparu eglurder ar gyfer cyfiawnhau'r cynigion hyn ym Mil Iechyd y Cyhoedd.
Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 22 | 3 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.30

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM5504 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod stryd fawr defnydd cymysg ac economi briodol gyda'r nos yn allweddol i sicrhau goroesiad y stryd fawr yng Nghymru;

2. Yn nodi'r cysylltiad rhwng twristiaeth, treftadaeth ac adfywio;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol, ardaloedd gwella busnes a phrosiectau datblygu ddull cydgysylltiedig o ran adfywio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 5 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**6 Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.28

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5505 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu rhwydwaith rheilffordd cyflymder uchel HS2 yn Lloegr.

2. Yn cydnabod y rhagwelir y bydd datblygu HS2 yn cael effaith negyddol gyffredinol ar economi Cymru.

3. Yn gresynu, hyd yma, na chadarnhawyd y bydd Cymru yn cael unrhyw adnodd ychwanegol pellach drwy fformiwla Barnett yn sgîl gwariant Llywodraeth y DU ar HS2.

4. Yn nodi pwysigrwydd hanfodol buddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth ar gyfer rhagolygon economi Cymru yn y dyfodol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid canlyniadol Barnett llawn neu unrhyw setliad ariannol teg arall, yn sgîl datblygu HS2.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 41 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'cydnabod' a rhoi yn ei le:

'y cyfleoedd y mae HS2 yn eu cynnig i gryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 9 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 9 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwyntiau 4 a 5 a rhoi yn eu lle:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i anrhydeddu ei chytundeb gyda Llywodraeth y DU i weithio mewn partneriaeth i drydaneiddio rheilffyrdd de Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r cynnydd yng nghapasiti rheilffyrdd y DU yn sgîl datblygu HS2, a fydd yn galluogi rhagor o gerbydau cludo i deithio ar y rheilffyrdd ar hyd a lled y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 9 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5505 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu rhwydwaith rheilffordd cyflymder uchel HS2 yn Lloegr.

2. Yn cydnabod y cyfleoedd y mae HS2 yn eu cynnig i gryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.

3. Yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western.

4. Yn nodi pwysigrwydd hanfodol buddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth ar gyfer rhagolygon economi Cymru yn y dyfodol.

5. Yn croesawu'r cynnydd yng nghapasiti rheilffyrdd y DU yn sgîl datblygu HS2, a fydd yn galluogi rhagor o gerbydau cludo i deithio ar y rheilffyrdd ar hyd a lled y DU.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid canlyniadol Barnett llawn neu unrhyw setliad ariannol teg arall, yn sgîl datblygu HS2.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 19 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.26

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.30

**NDM5503 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Parciau Cenedlaethol Cymru: Dychwelyd i'w gwreiddiau i gynllunio ar gyfer dyfodol cryfach

Bydd ailystyried y cymhelliant ar gyfer dynodi tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn ein galluogi i asesu eu perthnasedd i Gymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd cydbwyso'r buddiant lleol a'r arwyddocâd cenedlaethol yn hanfodol i'w dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.49

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Mai 2014**